# CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

Dydd Llun, 11 Ebrill 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd L.D. Evans (Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai)

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgorau 2 – 3 Heol Spilman - 9.00 - 9.15 am**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant

## 2. COFNODION

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain Chwefror, 2016 yn gofnod cywir.**

## 3. ADRODDIAD NAD YW'N CAEL EI GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. PRYNU FFLAT BRYDLESOL A WERTHWYD O DAN HAWL I BRYNU

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol. Felly yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch cais a oedd wedi dod i law gan lesddeiliad fflat a oedd yn arfer bod yn eiddo'r Cyngor yn gofyn i'r Cyngor ailbrynu'r eiddo y manylwyd arno yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Cyngor yn ailbrynu’r fflat a oedd yn arfer bod yn eiddo’r Cyngor y manylwyd arno yn yr adroddiad am ei gwerth presennol ar y farchnad agored.**

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**